# Cenn@d

5 Awst 2026

Rhifyn 284

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW


## Tystiolaeth yr Eglwysi yn y Sioe Fawr

Sir Frycheiniog oedd sir nawdd y Sioe Fawr eleni, gyda Gethin a Ceri Havard yn Llywyddion y Sioe. Bu'n sioe lwyddiannus, gydag oddeutu 50,000 o bobl yn crwydro'r maes bob dydd. Yn ôl yr arfer, cafwyd oedfa yng Nghapel Alffa yn nhref Llanfair-ym-Muallt i agor y sioe yn swyddogol, a hynny eleni dan arweiniad yr Hybarch Eileen Davies, sylfaenydd yr elusen Tir Dewi. Dilynwyd hyn gan Foliant y Maes, sef y Gymanfa Ganu flynyddol, a'r sied ddefaid dan ei sang, a chôr sirol yn cynnwys dros gant o aelodau.

Roedd Cytûn yno gyda'i stondin ar y maes, yn croesawu pawb i mewn am baned a sgwrs. Roedd yna weithgaredd i blant a chyfle, wrth gwrs, i bori yn y stondin lyfrau. Bu criw diwyd yn gweini paneidiau o fore tan nos, gan groesawu tua 1,200 i mewn atom. Cawsom gwmni sawl elusen yn hybu eu gweithgarwch, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, A Rocha, Undeb y Mamau, Cyngor yr Ysgolion Sul ac eleni, am y tro cyntaf, elusen newydd o'r enw Golau Gras, sy'n cefnogi merched sy'n dioddef o salwch meddwl mewn ysbytai.

Cynhaliwyd oedfa bob bore am 11 o'r gloch gyda gwahanol bobl yn ei harwain. Ar y dydd Llun band pres Byddin yr Iachawdwriaeth oedd yn arwain y canu, a braf fu cael cwmni'r Gwir Barchedig Cherry Vann, archesgob Cymru, a dreuliodd amser gyda ni ar y stondin. Dydd Mawrth cafwyd sgwrs banel yn trafod gweinidogaeth wledig, a bydd y drafodaeth hon ar gael fel ffilm ar wefan Cytûn yn fuan.

Elfen bwysig o genhadaeth y sioe yw gwaith y caplaniaid maes. Bu 12 ohonynt yn cerdded o gwmpas y maes yn sgwrsio, ac roeddent yn nodi iddynt gynnal dros gant o sgyrsiau sylweddol yn ystod yr wythnos. Gyda'r nos roedd tîm Bugeiliaid y Stryd yn crwydro'r strydoedd, gan gynnig cefnogaeth a chymorth. Ond tristwch yn ystod yr wythnos oedd clywed y newyddion fod un dyn ifanc wedi colli ei fywyd mewn maes gwersylla cyfagos, a chofiwn am ei deulu yn ein gweddïau.

Mae sawl stondin arall hefyd yn weithredol ar y maes, yn cynnwys pabell fyrlymus Show Jesus, uned gan y Mudiad Efengylaidd, a stondinau lles ac iechyd meddwl Tir Dewi a'r Farming Community Network (FCN).

Diolch am bob un tystiolaeth, ac am y cyfle i fod yno yn halen a goleuni, yn rhannu golau Crist.

*Aled Davies*



*Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn arwain y defosiwn*




*Y Gwir Barchedig Cherry Vann, archesgob Cymru, yn arwain y defosiwn*




*Aelodau'r panel yn y sesiwn i drafod cenhadaeth wledig*




*Ymlacio a sgwrsio dros baned*


Cofio'r Parchedig Phillip de la Haye
Tudalen 2

William Lewis, Abermawr
Tudalen 3

Down i addoli – Pam?
Tudalen 4

# Cofio'r Parchedig Phillip Charles Lloyd de la Haye (1932–2026)

## gan Eric Greene

Ychydig wythnosau yn ôl, roedd Haf a finnau yn ystyried mynd i Ganada am ein gwyliau eleni gan deithio ar y rheilffordd bydenwog, The Rocky Mountaineer. Un o'r llefydd roeddem wedi meddwl aros ynddo oedd dinas nad oeddwn erioed wedi clywed amdani, sef Kamloops, yn nhalaith British Columbia. Y rheswm pam rydw i'n tynnu sylw at yr enw Kamloops ydy mai yno y cafodd Phillip ei eni yn 1932. Roedd ei dad wedi symud yno o Wolverhampton yn 1912 ac wedi ymuno â'r Mounted Police ac ar ôl hynny wedi gwasanaethu yn y fyddin yno. Yna, yn bedair oed, symudodd Phillip a'i rieni i Loegr, a phan ddaeth y rhyfel, anfonwyd ef i aros efo modryb ac ewythr iddo yn Nyffryn Conwy. Cafodd ei addysg uwchradd ei heffeithio gan gyfnod o afiechyd, a bu'n gweithio ar fferm am bum mlynedd cyn gorfod gwneud ei wasanaeth cenedlaethol yn y Llu Awyr, ym Malaysia yn fwyaf arbennig, rhwng 1952 ac 1954.

Rhwng 1901 ac 1971, roedd yna ysgol Sul Gymraeg gref yn Hoole, tref a godwyd yn fwyaf arbennig i weithwyr y rheilffordd gan ei bod ychydig y tu allan i ddinas Caer (mae bellach yn rhan o Gaer). Yr adeg honno, roedd dynion a merched ifanc yn cael 'digs' yn y man lle roedden nhw'n gweithio ac yn mynd adref am benwythnos ryw unwaith y mis. Roedd Phillip yn gweithio yn siop W. H. Smith fel *trainee manager* ac yn aros yn nhŷ dynes hoffus iawn yn Hoole o'r enw Mrs Adelaide Owens, neu Anti Ad, fel roeddem i gyd yn ei hadnabod. Roedd yna ddau ddosbarth yn ysgol Sul Hoole y byddai Phillip wedi gallu ymuno â nhw, ac fe ddewisodd Phillip fynd i'r un lle roedd y drafodaeth ar lefel dyfnach na'r llall! Roeddwn i'n aelod o un o'r dosbarthiadau plant yno, ac felly roeddem wedi adnabod ein gilydd ers saith deg mlynedd!

Roedd Phillip wedi teimlo'r alwad i'r weinidogaeth yn 14 oed, ond ni chafodd gyfle i baratoi ar gyfer y gwaith tan 1960 pan ymunodd â'r Coleg Paratoi yng Ngholeg y Bala, ac wedyn symud i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Enillodd ei ddiploma yn 1965, ac fe wnaeth waith mewn ysbytai cyn cael ei ordeinio yn Lerpwl a dechrau ar ei waith bugeiliol yng ngofalaeth Adwy'r Clawdd, Coed-poeth, Bwlch-gwyn a Llandegla yn 1966. Arhosodd yno am 22 mlynedd. Y rhai a oedd yn cyd-weinidogaethu yn ardal Wrecsam ar yr un pryd â Phillip oedd y Parchedigion Pryderi Llwyd Jones (a gymerodd ran yn ei angladd), Alfred Phillips a John Curig Thomas. Roedd yn hynod o lwyddiannus yn ei ymwneud â phobl o bob math, a byddai'r ymadrodd 'person pobol' yn ei ddisgrifio i'r dim. Fe gofia rhai oedd yn ifanc yn yr ofalaeth ar y pryd fel y byddai Phillip a Mary yn eu croesawu fel pobl ifanc i'w cartref yng Nghoed-poeth ac yn buddsoddi cymaint ynddyn nhw.

Yn wir, roedd ganddo gonsýrn mawr dros eraill a thros gyfiawnder a heddwch yn y byd. Bu'n gefnogol iawn i Gymdeithas y Cymod, Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Beibl tan y diwedd pan oedd yn wael ei hun. Byddai ef a Mary hefyd yn fawr eu cefnogaeth a'u rhan yng nghyfarfodydd y Weinidogaeth Iacháu.

Roedd yna ochr ysgafn a hiwmor yn perthyn i Phillip hefyd. Mae Iwan, nai Mary, yn tystio fel roedd Phillip yn gwneud i'w ferched ef chwerthin drwy ddynwared y *meerkats* yn yr hysbyseb Compare the Meerkats ar y teledu. A sylwodd nifer ohonom ei fod wastad yn darllen yr hysbyseb Rosie's Cider yn ymyl Llandegla gan ddefnyddio acen gref Gwlad yr Haf wrth i rywun ei gludo rhwng y Bala a Wrecsam.

Cyn dechrau yn ardal Coed-poeth, teimlodd Phillip yr angen i wella'i Gymraeg ysgrifenedig a daeth hyn â fo i gysylltiad â Mary Parry yn y Bala. Fe lwyddodd hi hefyd i'w gael i gymryd rhan mewn drama yr oedd hi'n ei chynhyrchu. Priododd Phillip a Mary yng Nghapel Tegid ar 19 Awst 1967.

Yn 1988, symudodd Phillip i ofalaeth yn y Drenewydd, gyda dwy eglwys Gymraeg a thair eglwys Saesneg. Bu yno am gyfnod o naw mlynedd cyn ymddeol i'r Bala yn 1997, gan ymweld â pherthnasau yng Nghanada ar dri achlysur yn y cyfnod hwnnw.

Roedd Phillip a Mary yn uchel iawn eu parch yn y Bala, yn aelodau ffyddlon o Gapel Tegid ac roeddwn yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth i mi ar hyd y blynyddoedd. Roedden nhw'n hapus iawn yn eu byngalo tan iddyn nhw orfod symud i un o'r fflatiau



annibynnol yn Awel y Coleg. Ond, tua dwy flynedd yn ôl, achosodd cyflwr iechyd Mary iddi orfod symud i gartref gofal Llys Cadfan yn Nhywyn ac am rai misoedd bu Phillip ar y rhestr i gael symud i ran wahanol o'r un adeilad er mwyn gallu treulio rhan o'r amser gyda'i gilydd. Roedd gofal a chariad Phillip dros ei 'briod' (fel y galwai hi yn aml) yn anhygoel ac yn amlwg i bawb.

Hunodd Phillip yn dawel yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, ar 7 Mawrth, chwe wythnos cyn y byddai wedi cael ei longyfarch yn y Sasiwn yn yr Wyddgrug ar gyrraedd 60 mlynedd yn y weinidogaeth ordeiniedig. Parhaodd ei ffydd gadarn, yn efengylaidd yn yr Iesu a'i gonsýrn dros bob agwedd o'i achos Ef tan y diwedd.

Heb deulu agos ar gael i drefnu, fe gynhaliwyd angladd Phillip yng Nghapel Tegid, y Bala, ymhlith teulu'r eglwys a'r gymuned y bu'n rhan ohoni ers 30 mlynedd bron, ac yna yn amlosgfa Pentrebychan ar 9 Ebrill dan ofal ei weinidog. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Brian de la Haye, perthynas pell iddo o swydd Efrog. Gweddïwn gysur a diddanwch i Mary yn Nhywyn yn ei cholled.

Un gwylaidd wrth fugeilio, un â nod
Y didwyll wrth dystio,
Ac un tyner wrth ein herio
I fyw yn dda iddo Fo.

*John Owen*

# William Lewis, Abermawr, Sir Benfro

## Cyfrol newydd gan Eirwyn Vaughan

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag ardal enedigol yr emynydd Wiliam Lewis eleni, fe aeth Eirwyn Vaughan, sy'n perthyn i William Lewis, ati i groniclo'i hanes mewn cyfrol hwylus. Mae'r gyfrol 96 tudalen hon ar gael gan yr awdur am £8, yn cynnwys cludiant. Mae modd archebu copi trwy yrru neges at: tomfychan@gmail.com

### Dyma ychydig o hanes William Lewis, Llangloffan

Cafodd William Lewis ei eni yn ardal Mathri, tua'r flwyddyn 1740. Does dim sicrwydd am ddyddiad ei eni am nad oes gofnod swyddogol. Does dim cofnod ychwaith o enw ei rieni. Mae ei hanes o fewn ei gapel, sef Llangloffan, yn gliriach. Mae Llangloffan yn drydydd ar y podiwm o gapeli cyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru. Cafodd William ei fedyddio ar yr 16eg o Chwefror 1754. Felly, mae'n debygol ei fod tua 14 oed ar y pryd. Drannoeth ei fedydd, fe'i derbyniwyd yn aelod yn y capel.

Rydym yn gwybod bod ganddo frawd o'r enw Thomas Lewis, a fu'n weinidog yn Llangloffan rhwng 1780 ac 1823. Roedd Thomas yn un o dri gweinidog a dreuliodd 43 mlynedd yn arwain yn Llangloffan. Yn ddiddorol, ceir enw William fel tyst priodas ei frawd. Y rheol ar y pryd oedd mai dim ond gweinidog neu swyddog/diacon fyddai â'r hawl i fod yn dyst. Felly, mi fedrwn gasglu ei fod nid yn unig yn aelod ond hefyd yn ddiacon yn Llangloffan yn ifanc iawn.


Bu William yn byw gyda'i deulu mewn un o'r ddau fwthyn bach yn agos at draeth Abermawr. Yno yn ei gartref, bu'n dilyn ei grefft fel gwehydd carped. Mae'n debyg iddo briodi merch o'r enw Phoebe o ardal Abercastell, sef traeth braf, 3.5 milltir o Abermawr ar hyd llwybr yr arfordir! Ganwyd iddynt ddau blentyn: mab a merch, sef William a Maria.

Aeth William, y mab, i'r môr yn ifanc iawn. Mae'n debyg iddo gael ei orfodi i ymuno â'r llynges frenhinol. Dywedir ei fod wedi ymladd yn yr Aifft pan oedd yn ddim ond 16 mlwydd oed. Yn anffodus, daeth trasiedi i fywyd y teulu pan fu farw'r mab wedi iddo syrthio dros ochr y llong i'r dŵr. Ac yntau'n ddim ond 16 oed! Felly, yr unig wyrion a gafodd William a Phoebe oedd plant eu merch, Maria. Priododd Maria â bachgen o'r enw David Bowen, a chawsant ddau o blant: merch o'r enw Phoebe, a enwyd ar ôl ei mam-gu, a bachgen o'r enw David, a enwyd ar ôl ei dad.

Gelwir William yn 'William Lewis, Llangloffan' am mai dyna oedd ei addoldy ar hyd ei oes. Fe'i gelwir hefyd yn 'William Lewis, Abermawr' am mai yno y bu fyw gydol ei oes fer. Rydym yn sôn am bellter o dair milltir a hanner o'i gartref i'r capel. Tystiodd ei ferch mai dim ond eira trwm neu'r glaw'n pistyllo lawr fyddai'n ei rwystro rhag mynd i'r capel. Roedd cadw'r Saboth a phrydlondeb mewn moddion gras yn rhan annatod o'i natur. Ni allai oddef i ddim y medrid ei wneud ar ddiwrnod arall gael ei wneud ar y Sul. Yn ogystal, ni fedrai oddef y syniad o gyrraedd oedfa'n hwyr. Dywedai o hyd: 'Mae'n llawer hawddach bod yn gyntaf, na bod yn ddiwethaf i gyrraedd y cwrdd'. Gan nad oes sôn am geffyl na beic yn ei hanes, rhaid casglu ei fod wedi cerdded i bob oedfa gan adael y tŷ mewn llawn bryd i fod y cyntaf i gyrraedd y capel. Efallai bod ei esiampl yn bwysig iawn, yn yr oes Zoom ôl-Covid sydd ohoni, â phobl yn dal i'w chael yn anodd codi o'r tŷ a theithio mewn car modur hyd yn oed!

Mae'n hollbwysig cofio bod William Lewis wedi byw ar adeg o ddiwygiadau yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Er nad oes sôn am ddiwygiad yn ardal capel Llangloffan ac ardal Mathri yn ystod oes William Lewis, mae'n bosib iawn bod bwrlwm a dylanwad diwygiad o'r fath a gaed yn Llangeitho yn 1762 wedi cyrraedd gogledd Shir Benfro.

Gwehydd oedd yr emynydd wrth ei alwedigaeth, a dywedir ei fod yn grefftwr artistig a deheuig iawn. Gallai wau carped llawn o luniau a lliwiau o bob math yn berffaith. Bu uchelwyr Shir Benfro yn prynu ei waith er mwyn harddu eu plasau gyda'i garpedi 'perffaith'. Felly, fe enillodd barch mawr fel gweithiwr da ac onest. Mae'n amlwg ei fod ar y blaen i weithwyr eraill y gymdogaeth yn ei faes arbenigol. Roedd ganddo garped mawr ar y gweill pan fu farw. Plas Tregwynt oedd wedi archebu'r carped hwnnw er mwyn addurno un o'i stafelloedd gorau. Yn anffodus, bu farw William Lewis cyn iddo fedru gorffen y




carped. Bu Plas Tregwynt yn chwilio ym mhob man yn y fro am rywun i orffen y prosiect, ond heb lwyddiant. Yn y diwedd, llwyddwyd i gael gwehydd o bell i gwpla'r gwaith.

Mae nifer o emynau William Lewis yn gyfarwydd. Dim ond tri emyn o'i waith sydd yn *Caneuon Ffydd*: 'Aed grym efengyl Crist' (rhif 254); 'Y mae trysorau gras' (rhif 310); a'r mwyaf adnabyddus ohonynt, 'Cof am y cyfiawn Iesu' (rhif 500). Ond mae eraill yn gyfarwydd am eu bod wedi eu cynnwys yn llyfrau emynau blaenorol y gwahanol enwadau.

Er gwaetha'r holl waith celfydd a wnaeth yn ei ardal, a'r ddawn oedd ganddo i ysgrifennu emynau, dyn tlawd iawn oedd William ar lefel faterol. Serch hynny, roedd William Lewis yn ei gyfrif ei hun yn gyfoethog trwy'r Arglwydd Iesu Grist, ac yn ystyried trysor yr Efengyl yn llawer pwysicach nag unrhyw drysor daearol. Mae cwpled cyntaf un o'i emynau yn dangos hynny'n glir iawn:

> Y mae trysorau gras
> Yn llifo fel y môr,
> Mae yn fy annwyl Frawd
> Ryw gyfoeth mawr yn stôr:
> Ymlaen yr af er dued wyf,
> Mae digon yn ei farwol glwyf.

Mae'n sicr fod byw yng nghlyw'r tonnau gerllaw traeth Abermawr wedi ei helpu gyda'r cwpled agoriadol. Mae'n cyfleu bod y stôr o ras sydd gan Dduw ar gyfer Ei bobl yn ddihysbydd, yn ddi-ben-draw. Mae gras Duw'n gyson, fel y tonnau sy'n ddylanwadol ac yn rymus o ddydd i ddydd. Fel y dywedais, dyn tlawd oedd William Lewis yn faterol, ond serch hynny, ystyriodd ei hun yn dra chyfoethog yn yr Arglwydd Iesu.

# O Gefn Gwlad

Colofn Elfyn Pritchard

## Down i addoli – pam?

Beth amser yn ôl yn ein Cylch Trafod, dyma ddosbarthu'r aelodau yn bedwar grŵp a gofyn iddyn nhw drafod ac ateb y cwestiwn: Pam y deuwn i'r capel?

Ie, creu pedwar grŵp bychan gan ei bod yn llawer haws i ni yn gyhoeddus ateb cwestiynau yn un o grŵp, yn hytrach na gorfod rhoi pen personol ar y bloc. (Er mawr gywilydd i mi, mi etifeddais ar ddechrau fy ngyrfa'n athro yr arferiad o ofyn i blentyn unigol ddarllen yng ngŵydd y dosbarth i gyd, gofyn iddo felly arddangos ei anawsterau a'i fethiant yn gyhoeddus. Yn ffodus, mi dyfais yn addysgol allan o'r arferiad anhygoel hwnnw, a dyma wneud yr un peth yn ein Cylch Trafod.) Felly, dyma rannu efo chi yr atebion a gafwyd, sydd, yn fy nhyb i, yn cwmpasu'r holl resymau – neu'r rhan fwyaf, beth bynnag – pam y mynychwn gapel neu eglwys.

**Am ei fod yn draddodiad ardal** – meddai un grŵp, gan bwysleisio hefyd bwysigrwydd parchu traddodiad. Digon teg. Ryden ni'n byw mewn oes a chyfnod lle mae llawer o'n traddodiadau'n diflannu, a hynny am eu bod yn hen ffasiwn yng ngolwg dinasyddion 'goleuedig' yr unfed ganrif ar hugain. Gwell chwaraeon i'n plant nag ysgol Sul. Oni ellir cael y ddeubeth? Mae mwyafrif llethol ein plant yn cael eu magu heb wybod am fodolaeth capel, a chrefydd a gwasanaethau, a phrin fod un emyn ar dafod leferydd y mwyafrif erbyn hyn. Rydym yn bedwar ar ddeg o fynychwyr yng Nghefnddwysarn, rhywbeth tebyg yn Rhydywernen (yr Annibynwyr). Canran uwch na llawer ardal, tase hynny'n rhyw gysur, ond dim un plentyn yn y naill na'r llall o'r capeli.

**Er mwyn cymdeithasu** – meddai grŵp arall, ac ni ddylid dibrisio'r ateb swta hwn. Y mae cymdeithasu yn agwedd gwbwl waraidd ar ein bywydau. Tra bod cymdeithasu fe fydd heddwch o leia yn eln hardaloedd, a siawns y byddwn yn cefnogi ac yn addysgu ein gilydd yn y broses. Ein magu yn y ffydd, efallai. Mae hyn yn hollol groes, cofiwch, i un anogaeth sy yn y Beibl: 'Dos i'th ystafell ac wedi cau dy ddrws …' (Mathew 6:6). Mae lle i'r ddeubeth fyddai'r ateb falle, a chyfarwyddyd ar weddïo ydi'r adnod beth bynnag. Testun pregeth ola Tom Nefyn gyda llaw, a hynny yng Nghapel Rhydyclafdy cyn ei farw y noson honno. Testun arwyddocaol oherwydd yr hyn ddigwyddodd wedyn.

Fe ddiffiniwyd y cymdeithasu hwn a'i bwrpas gan atebiad un arall o'r grwpiau: **Ein dysgu sut i fyw a pharchu ein gilydd yn ein bywyd bob dydd**. Go dda, 'dech chi ddim yn meddwl? Ac yn dwyn i gof i mi'r cwpled o emyn yr wyf wedi ei dyfynnu amlaf ym myd crefydd ac addysg, ac yn yr erthyglau hyn, synnwn i ddim!

Drwy bob gwybodaeth newydd
Gwna ni'n fwy doeth i fyw.

Mewn byd sy'n cyflym gymhlethu yn ei syniadau a'i agweddau, onid oes mawr angen y ddoethineb hon arnom? A haws yn aml, 'dech chi ddim yn meddwl yn wyneb y datblygiadau hyn, ganfod y ddoethineb hon mewn grŵp yn hytrach nag fel unigolion.

Yna, ateb y grŵp olaf: **Dod i addoli Duw a chwilio am atebion i'r cwestiynau sy'n codi yn ein bywyd bob dydd**. Dau ateb mewn gwirionedd, a'r cyntaf yn nodi'r rheswm sylfaenol sy'n sail i bob gwasanaeth, boed mewn capel, eglwys, synagog, mosg neu unrhyw un arall o'r lliaws addoldai sy'n bodoli yn enw sawl crefydd a sawl duw yn ein gwlad. Fe gafwyd trafodaeth ar y syniad fod Duw yn hawlio ein haddoliad, syniad sy'n seiliedig ar yr hen gysyniad o dduw fel un y mae'n rhaid ei blesio er mwyn derbyn ei ffafrau. Cytunwyd yn y diwedd, am wn i, mai ni, ac nid Duw, sy angen yr addoliad.

Mae'r chwilio am atebion yn perthyn yn agos i ateb y trydydd grŵp, ond bod y chwilio hwn, o holi'r grŵp, yn perthyn i anawsterau ym myd crefydd. Ac mae un o'r rhai pennaf yn ymwneud â'r syniad o'r pechod gwreiddiol, a grybwyllwyd yn ein trafodaeth wedyn – cred sy'n seiliedig ar stori Adda ac Efa a'r cwymp yn Eden, un o fythau'r Hen Fyd. Mae'n gwestiwn sy'n haeddu erthygl gyfan o leia, a falle y gwna i fentro! Gaf i weld.

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 9 Awst 2026**

BBC radio cymru | S4C

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 9 Awst am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad y Parchg Miriam Beecroft, Machynlleth

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 9 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Angela Williams, Llanfair-pwll


**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*


Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.